

CC(3) AC 39

Communities and Culture Committee

Response from trac

trac: Traddodiadau Cerdd Cymru – Music Traditions Wales

**Ymateb i'r Ymchwiliad
i Hygyrchedd y Celfyddydau a Diwylliant yng Nghymru**

**Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

24 - 09 - 10



trac yw'r corff cenedlaethol â chyfrifoldeb am ddatblygiad strategol cerddoriaeth draddodiadol Gymreig ac y mae, ar hyn o bryd, yn derbyn cyllid refeniw (yn ogystal â chyllid prosiect) oddiwrth Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Mae trac wedi llwyddo yn ei ymgais i gadw'i le ym mhorthfolio cyfredol CCC ond yn aros i weld pa fath o berthynas gyllidol fydd yn bodoli rhwng CCC a Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Yn ei ymateb i Adolygiad Celfyddydau Cymru, mae trac wedi datgan ei ymroddiad i'r egwyddor o 'gyllido hyd-braich' wrth ystyried cyllido'r celfyddydau. 'Rydym am gynnig y sylwadau canlynol i'r drafodaeth 'Ddiwylliant' ehangach sydd ohoni.

Byddem yn barod iawn i gyflwyno ein syniadau'n bersonol gerbron y Pwyllgor.

1. Ydych chi'n o'r farn bod Llywodraeth Cymru wedi gwireddu ei hymroddiad o sicrhau bod 'profiadau diwylliannol o safon ar gael i bawb, ble bynnag y maent yn byw a beth bynnag yw eu cefndir?' Pa mor effeithiol ydy'r buddsoddiad mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol wedi bod o ystyried gwireddu'r amcan hwn?

Er bod croeso mawr i unrhyw gyllid ychwanegol y mae llywodraethau'n llwyddo i ddarparu'n uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau celf, yn rhy aml mae'n cael ei ddefnyddio i greu strwythurau rheoli newydd sy'n anwybyddu'r arbenigedd sydd eisoes yn bodoli.

Pan fydd rhaglenni newydd yn mynd allan i dendr, yn anaml, os o gwbl, y sefydlir neu yr hyrwyddir paramedrau caffael sy'n caniatáu i ymarferwyr presennol y celfyddydau wneud cais. Yn aml, mae'r cwmnïau sy'n ennill tendrau yn llwyddo am eu bod yn y busnes o ennill tendrau, ac nid oherwydd bod ganddynt gwir arbenigedd yn y maes, neu yng Nghymru. Does yna ddim canllawiau neu orfodaeth arnynt i ryngweithio gydag ymarferwyr presennol.

Mae'r Celfyddydau'n dioddef o gael eu trin mewn modd anghyson. Mae amrywiol Weinyddiaethau'n mynd ati'n uniongyrchol i noddi neu gomisiynu prosiectau heb ddealltwriaeth lawn o'r opsiynau sy'n bodoli, neu o'r Arfer Gorau. Disgwylir i gleientiaid y celfyddydau a ariennir gan Gyngor y Celfyddydau gwrdd â thargedau artistig, cyfreithiol, monitro ayyb. penodol na ddisgwylir o'r gwaith a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er bod y cyhoedd efallai'n cymryd yn ganiataol taw busnes y Weinyddiaeth Dreftadaeth yw Celf a Diwylliant, mae'n ymddangos bod llawer Gweinyddiaeth arall yn cyllido gwaith Celf a Diwylliant, ac felly nid oes llawer o arwydd o "feddwl cydgysylltiedig".

Yn amlach na pheidio, mae'n ymddangos taw'r flaenoriaeth yw 'gwneud rhywbeth' yn hytrach na 'gwneud rhywbeth yn dda'.

O ymchwilio i ddatganiadau ar-lein Llywodraeth Cynulliad Cymru parthed â chyllido, mae'n ymddangos nad yw hi'n bosibl cyllido mudiadau Celf yn uniongyrchol, ond ar y llaw arall mae yna nifer o esiamplau lle y mae hyn wedi digwydd. Mae'r diffyg tryloywder yma'n bradychu rhai o egwyddorion sylfaenol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn arwain at faes chwarae hynod "anwastad". Os ydy Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ymrwymo i bolisi hyd-braich o gyllido'r Celfyddydau - ac rydym ar ddeall taw dyma yw ei hymrwymiad yn dilyn Adolygiad Celfyddydau Cymru - dylent gadw at hynny, waeth pa Weinyddiaeth sydd o dan sylw. Ni ddylai'r 'gwybodusion' fod â mantais wrth geisio am y cyllid a ddyfernir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae trac yn ymdrechu i sicrhau bod 'profiadau diwylliannol o safon ar gael i bawb, ble bynnag y maent yn byw a beth bynnag yw eu cefndir' o fewn ei gylch gwaith. Yn wir, mae'n rhan o'n cyfansoddiad, ac fe fyddai p'un ai rydym yn derbyn cyllid o Gyngor Celfyddydau Cymru neu adran arall a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu beidio. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod yr agwedd hon o gylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei gwireddu'n gyson ar draws Cymru. Yn ein barn ni, mae yna ddau reswm dros hyn.

Y rheswm cyntaf yw bod mudiadau celfyddydol a diwylliannol yn aml yn tyfu mewn ymateb i anghenion lleol neu anghenion cymuned fuddiant. O fewn trac, rydym yn trefnu ein darpariaeth yn unol ag ystyriaethau ymarferol a chyfleoedd cyllido. Yr ail reswm yw gorddibyniaeth ar fodel ddarparu ganolog sy'n pennu taw Caerdydd yw cartref *de facto* mudiadau cenedlaethol. Yn aml, mae'r mudiadau a gyllidir gan Gyngor Celfyddydau Cymru cymaint ynghlwm wrth y brifddinas a'r trefi cyfagos fel eu bod yn ystyried taith i Abertawe, Rhuthun neu Aberystwyth i fod yn weithgaredd ychwanegol.

Rydym hefyd yn cwestiynu'r egwyddor sy' tu ôl i'r cwestiwn o seilio 'cwmpas cenedlaethol' ar adnoddau Celf a adeiladwyd yn fwriadol at y pwrpas. Nid oes yr arian na chwaith yr awydd am dŷ opera ym mhob tref, ac nid rydym chwaith o'r farn taw cyllido gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol mewn lleoliadau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn ymroi i, ac yn cael mynediad at y celfyddydau ledled Cymru. Cynnig gwaith o'r safon gorau i'r genedl - dyna ddylai cwmnïau cenedlaethol ystyried yn flaenoriaeth; drwy wneud hynny byddant yn ennill bri rhyngwladol.

2. Sut yn union y mae lleoliadau celf a diwylliant - gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau - yn mynd ati i hyrwyddo mynediad, denu cynulleidfaoedd newydd ac annog cyfranogaeth yn unol ag ymroddiad *Cymru'n Un* a strategaethau'r Cyngor Celfyddydau?

Mae geiriad y cwestiwn hwn yn gwyro'r drafodaeth. Os taw cynnig mynediad at y Celfyddydau gwaeth beth yw'r lleoliad neu gefndir yw'r nod, rhaid i'r Cynulliad feddwl y tu hwnt i'r seilwaith a adeiladwyd, a mynd ati i annog gweithgareddau celf sy'n ymgysylltu dinasyddion fel defnyddwyr yn eu cymunedau naturiol, ac fel cyfranogwyr gweithgar. Nid yw amharodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i herio Deddf Trwyddedu Adloniant Cyhoeddus San Steffan, a'i effaith ar gelfyddydau cymunedol wedi gwneud dim i alluogi cyfranogaeth.

Mae'r cwestiwn hefyd yn awgrymu nad yw'r rhwydwaith o ganolfannau cymunedol, Neuaddau Lles, Ymddiriedolaethau Datblygu, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, Clybiau Cymdeithasol a Chlybiau Gweithwyr yn gweithio fel lleoliadau cymunedol. Wrth wneud hyn mae'n weithredol ddiystyru'r gweithgareddau celf a diwylliannol sy'n digwydd ar draws Cymru, p'un ai y maent yn derbyn cyllid o Gyngor Celfyddydau Cymru, Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad neu o gorff anllwydraethol arall.

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dangos diddordeb cynyddol mewn encilio o'r celfyddydau gwirfoddol ac amatur - rhain yw'r cyfrwng i ddatblygu talent newydd, i gynnig cefnlen i artistiaid proffesiynol ac i feithrin cynulleidfaoedd ar gyfer digwyddiadau celf proffesiynol.

O ystyried amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, maent yn wir yn datblygu mewn ffordd fwy creadigol wrth iddynt fynd ati i ddehongli eu casgliadau gan ddefnyddio gweithgareddau mewnol. Serch hynny, mae unigolion a mudiadau allanol yn dal i gael llawer o drafferth i gael mynediad manwl at y casgliadau.

Yn aml, y rheswm a roddir am wrthod mynediad yw 'problemau hawlfraint'; dylai deddfwriaeth a basiwyd yn ystod cyfnod diweddar llywodraeth ddiwethaf San Steffan nacáu'r ddadl hon er nad ydym yn ffyddiog y bydd y mudiadau hyn yn manteisio ar y fframwaith cyfreithiol newydd hon.

Byddem hefyd yn disgwyl bod unrhyw fuddsoddiad mewn hygyrchedd digidol - mentrau megis "Casgliad y Werin" - i ddefnyddio diwydiannau creadigol ac artistiaid *Cymraeg* (yn bwysig, yn achos trac, cerddorion Cymraeg) wrth greu cynnwys.

Hoffem hefyd dynnu sylw at y ffaith bod nifer o fudiadau Celf wedi darganfod, dro ar ôl tro, nad yw'r Loteri Dreftadaeth yng Nghymru yn hael ei chymorth. Beth bynnag yw'r cwynion a anelir at Gyngor y Celfyddydau, mae ei weithdrefn Loteri yn drefnus, y swyddogion yn barod i helpu a'r cyfan yn gymharol dryloyw; ni ellir dweud yr un peth am y Loteri Dreftadaeth yng Nghymru - nid ydynt yn dangos unrhyw ddiddordeb yn, neu ddealltwriaeth o, ein Treftadaeth Annirnadwy. Mae cronfa debyg yn Lloegr wedi cefnogi rhai cynlluniau arloesol a phoblogaidd, yn cynnig gwerth etifeddol rhagorol.

3. Ydy'r rhwydwaith presennol o leoliadau ar gyfer celf a diwylliant yng Nghymru'n ddigonol, ac oes yna problemau daearyddol neu problemau eraill sy'n rhwystro cyfranogaeth (e.e. mewn ardaloedd gwledig neu ddfreintiedig?)

Unwaith yn ragor rydym yn teimlo, o'r modd y gosodir y cwestiwn, bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd yn ganiataol bod y ddarpariaeth ar gyfer Cymru gyfan yn troelli ar y rhwydwaith o leoliadau, sydd yn dyb gwbl anghywir. Mae'n wir i ddweud bod yna rwystrau i fynediad; trafndiaeth gyhoeddus / breifat ddiffygiol yn arbennig pan fo'r datblygiad wedi'i ganolbwyntio yn y De Ddwyrain, neu gwmnïau a gyllidir fel rhai 'cenedlaethol' ond sy'n gwneud ond bach iawn o deithio.

Serch hynny, rhwystr arall i gyfranogaeth yw'r ffocws y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun yn doddi ar 'rhwystrau' ac 'allgau', sydd yn aml ond yn llwyddo i greu cymunedau a materion pot mêl. Mae hyn yn lliniaru yn erbyn unrhyw gymuned nad oes ganddi fâs critigol o ba bynnag fater sy'n cael ei drafod (e.e. ardaloedd gwledig). Nid yw hyn yn cefnogi agwedd cymuned-gyfan at gynhwysiant ac yn brandio'r unigolion a dargedir fel rhai sy' wedi'u "hallgáu".

4. Beth fydd effaith Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau ar y rwydwaith o leoliadau a gweithgareddau diwylliannol sy'n digwydd ledled Cymru? Ydych chi o'r farn y bydd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau, o ganlyniad i'r Adolygiad Buddsoddi, i beidio â chyllido 32 mudiad, yn cael effaith sylweddol ar hygyrchedd lleoliadau neu weithgareddau diwylliannol? A ydy canoli cyllid yn osgoi ei daenu'n rhy denau a chyflawni fawr ddim?

Fel uchod, teimlem na fydd y bwriad y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i ddatgan o ffocysu ar y celfyddydau gwbl broffesiynol yn ateb anghenion neu ofynion Cymru. Rydym yn sicr o'r farn bod Cyngor Celfyddydau Cymru cymaint yn well na Chronfa Dreftadaeth y Loteri wrth fynd ati i ddsbarthu arian y Loteri. Mae'r egwyddor 'hyd-braich' yng nghyd-destun

cyllido'r Celfyddydau o'r pwys mwyaf ond rydym yn teimlo'n gryf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cyllido ar sail cyfnod o dair neu bum mlynedd; bydd galluogi cyllidwyr y Celfyddydau i gynllunio ymlaen llaw yn galluogi darparwyr y Celfyddydau i wneud hynny hefyd a lleddfu ar natur stopio-dechrau parhaol gweinyddu'r Celfyddydau.

Teimlwn y bydd torri cyllid cymaint o gleientod refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru yn golygu y bydd llai o bobl yn cael mynediad at y celfyddydau. Mae angen pobl ac adnoddau ar y Celfyddydau. Mae llawer o'r cleientiaid sy'n colli eu cyllid yn rhan o'r cynhwysedd cynhyrchu y mae lleoliadau eraill a gyllidir yn dibynnu arnynt am eu rhaglenni; gyda llai o gelf ar gael a llai o leoliadau ar gael i'w lwyfannu, bydd llai o, a gwaeth, mynediad ar gynnig.

[5. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cyllideb 2011/2012 Cyngor y Celfyddydau tan fis Rhagfyr, 2010. Yn eich barn chi, pa effaith fydd gostyngiad yng nghyllideb y Cyngor Celfyddydau yn cael ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru?](#)

Mae'n bosibl y ni fyddai lleihad yng nghyllid rhai o brif cleientod Cyngor y Celfyddydau yn cael fawr o effaith ar lawer ardal yng Nghymru, gan eu bod ond yn anaml yn gweld y cwmnïau hyn ar daith. Bydd lleihau cyllid i'r celfyddydau cymunedol yn cael effaith llawer dwysach.

Hunan dwyllo yw credu y bydd asiantaethau eraill yn dal y slac yn dynn o ystyried cyllido celfyddydau cymunedol. Mae'r mantra cyllido cyfredol yn datgan y dylai mudiadau Celf ddisgwyl ond rhan fechan o'u cyllid o Gyngor y Celfyddydau, ond, y tu hwnt i gyffiniau Caerdydd, prin iawn yw'r ffynonellau amgen. Nifer fach o Brif Swyddfeydd Corfforaethol sydd gennym yma yng Nghymru, ac felly, llai o fynediad at gyllid corfforaethol. Stori debyg yw Ymddiriedolaethau.

Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried y cyllidwyr a oedd ar gael yng Nghymru 25 mlynedd yn ôl, a'u cymharu â'r sefyllfa gyllido bresennol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Crebachodd y gronfa gyllido ymhell cyn y 'wasgfa gredyd' bresennol.

Mae hyn yn cynnwys colli asiantaethau a fu â chylch gwaith cymdeithasol ond sydd erbyn hyn yn fewnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, e.e Croeso Cymru, y WDA (a oedd yn ei dro wedi llyncu Bwrdd Datblygu Cymru Wledig). Mae Croeso Cymru yn esiampl o asiantaeth a fu unwaith yn dosrannu cyllid (cymharol fach) i grwpiau cymunedol i hybu twristiaeth ddiwylliannol, ond sydd erbyn hyn yn pwysu ar gleientod a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i wireddu amcanion twristiaeth heb gynnig cefnogaeth ariannol.

Prif effaith datganiad mis Rhagfyr, wedi'r datganiad gan Gyngor y Celfyddydau ym mis Mehefin, ar waith trac yw ein bod ddim yn gallu ehangu ein darpariaeth a bod yna oedi o hyd at flwyddyn yn ein gwaith partneriaeth. Gallwn gynllunio ac adnabod meysydd llafur ond ni allwn ddechrau cyflawni unrhywbeth tan ein bod yn gwybod a fyddwn yn derbyn cyllid ai peidio; nid yw ein cyfansoddiad (a chyfansoddiadau pob mudiad celf arall sy'n hysbys i ni) yn caniatáu i ni fynd ati i gytundebu neu dderbyn rhwymedigaethau heb ein bod yn gallu diwallu'r rhain. Mae hon yn elfen ganolog o bob Elusen a Chwmni sy'n Gyfyngedig drwy Warrant, ac mae'r mwyafrif llethol o fudiadau celf a diwylliannol wedi mabwysiadu cyfansoddiadau o'r math. Nid yw ein cyllidwyr a'n partneriaid prosiect, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, yn gwneud cytundebau cyllido neu brosiect gyda chleientiaid Cyngor Celfyddydau Cymru tan eu bod yn gwybod os fydd y mudiadau hyn yn dal mewn bodolaeth mewn blwyddyn neu beidio. I gymhlethu pethau, nid ydynt eu hunain yn gwybod beth fydd eu lefel cyllid. Os bydd rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru dorri mwy fyth ar ei gefnogaeth i fudiadau celf a diwylliannol, bydd hi'n cymryd amser i brosesi'r goblygiadau a bydd hynny'n

golygu bod oedi hir cyn bod unrhywun yn gallu mynd ati i gynllunio a dechrau'r gwaith o gyflawni.

Mater arall posibl i gadw mewn golwg yw 'siâp' Cyngor Celfyddydau Cymru ei hun yn y dyfodol. Dywedir bod disgwyl i Gyngor Celfyddydau Cymru wneud toriadau mewnol ar raddfa sylweddol - awgrym sy'n gwbl ddealladwy o ystyried y toriadau yn niferoedd y cleientod a'r lleihad yn yr arian grant a ddisgwylir. Tra bod hyn yn deg, mae'r sefyllfa yn gofyn am arolwg trylwyr o strwythur cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn sicrhau asiantaeth gyllido sy'n ymateb mewn ffordd briodol i bob un o gymunedau Cymru.

Ar drywydd arall, mae trac yn nodi'r datganiad ym Maniffesto Llywodraeth y Glymblaid yn San Steffan sy'n dweud, "Byddwn yn doddi stop ar wario gwastraffus gan ddsbarthwyr y Loteri Genedlaethol drwy wahardd gweithgareddau llobio a chyfyngu costau gweinyddol i 5% o gyfanswm yr incwm." Mae'n ddigon posibl y bydd mudiadau sy'n derbyn Grantiau Loteri sylweddol iawn yn llwyddo i weinyddu eu gweithgareddau gan ddefnyddio 5% o'i hincwm, ond ni fydd y rhai sy'n derbyn grantiau llai yn medru gwneud hynny. Er nad yw'r penderfyniad yn un y gall y Cynulliad Cenedlaethol newid, mae'n dal i fod yn fater y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru godi gyda llywodraeth San Steffan.

[6. Oes gennych unrhyw bryderon parthed â rychwant ac ansawdd y gwasanaethau a'r gweithgareddau diwylliannol y darperir gan awdurdodau lleol ar draws Cymru? A ydy awdurdodau lleol yn derbyn adnoddau digonol i'w galluogi i gyllido a chefnogi gweithgareddau diwylliannol mewn dull cyson yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni?](#)

Gan nad yw'r celfyddydau yn Ofyniad Statudol i Awdurdodau Lleol, mae'n hawdd iawn eu torri. Yn nyddiau cynnar y 'wasgfa gredyd' bresennol, cyfeiriodd ambell i Brif Weithredwr yn agored ac ar unwaith at raglenni celf fel y dewis amlwg os oedd angen gwneud toriadau. Pan ddaw hi at y Celfyddydau, dim ond ambell i Awdurdod Lleol y gallwn ystyried yn 'bâr o ddwylo diogel'. Cymharer y nifer o Swyddogion Celf Cymunedol sy'n bodoli gyda'r nifer o Swyddogion Chwaraeon Cymunedol sydd mewn swydd. Mae llawer o'r Swyddogion Celf Cymunedol hynny yn gweithio heb gyllideb o gwbl; gan fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn gosod cap gweddol isel ar gyfraniadau 'mewn da', waeth pa mor werthfawr yw'r rhain i hyfywedd prosiect, nid yw swyddog heb arian i gyfrannu o ddefnydd mawr i ddarparwyr y Celfyddydau.

Mae trac hefyd ar ddeall nad yw un o'n Cynghorau yn bwriadu ail-apwyntio unrhywun i swydd - yr unig swydd Celfyddydau Cymunedol sydd ganddynt - pan fydd y deiliad presennol yn gadael yn ddiweddarach yn y flwyddyn hon. Teimlwn fod hyn yn darlunio'r sefyllfa'n dda.

[7/8/9/10. Mae Arolwg Omnibws 2008 Cyngor y Celfyddydau yn awgrymu bod ayyb. Ydy hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch gynnig esboniad am yr amrywiad hwn, a sut y gallwn fynd ati i weithredu ar y mater?](#)

Mae trac yn falch bod ein gwaith, a gwaith ein chwaer fudiadau, yn denu croes-doriad o bobl mewn gwaith, y di-waith, bobl nad ydynt yn gweithio hyd yn hyn, neu'r rhai sydd wedi ymddeol; coleri gwyn a glas; yr ystod oedran; cymunedau sy'n siarad ieithoedd eraill; rhyw; ayyb. Nodwn, er enghraifft, bod y di-Gymraeg ymhlith y mwyaf brwd am ddysgu canu Plygain; o gael y cyfle, mae pobl ifanc yn cymryd at gerddoriaeth frodorol dreftadol fel hwyaden â nofio; mae dynion y mwynhau ymroi i'r celfyddydau, yn arbennig felly os yw hyn yn cynnwys canu offerynnau swnllyd iawn.

Os ydy trac yn cael anhawster, bydd hyn yn codi oherwydd y canlynol;

- asiantaethau eraill sy'n *rhagdybio* na all cerddoriaeth draddodiadol fod o unrhyw ddiddordeb i, dyweder, pobl ifanc. Mewn gwirionedd, mae rhagdybiaeth o'r fath yn

golygu nad yw pobl ifanc yn cael mynediad at amrywiaeth. Hoffwn gyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru at gerddorfa werin newydd Clera (y gymdeithas offerynnau traddodiadol), sef Y Glerorfa - a'r nifer o bobl ifanc sy'n aelodau ohoni. Mae llawer o'r rhain yn y grŵp oedran 16 - 25 sy'n anodd ymgysylltu â.

- deddfwriaeth gwarchod plant, neu'r camddefnydd ohoni, sy'n adeiladu rhwystrau i ddulliau cymuned-gyfan o bontio'r cenedlaethau.

Un man cychwyn posibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru fyddai deall bod gan bob ffurf ar Gelf (o bosibl) ei ddatrysiadau gwahanol ei hun i'r agenda cynhwysiant; hefyd, y dylai *cydraddoldeb mynediad* fod yn nod, ond nid oes *rhaid* i bob gweithgaredd unigol apelio at bob cymuned.

Wrth reswm, mae trac yn ffocysu ar, ac â buddiant breintiedig yn, niwylliannau brodorol Cymru. Rydym yn plethu themâu "Naws am Le" y Cynulliad i'n gweithgareddau. Rydym wedi ymrwmo at waith a fydd yn cefnogi Diwydiannau Hunaniaeth megis Twristiaeth Ddiwydiannol; rydym am gynnal lles cymunedau Cymraeg drwy annog gweithgaredd sydd yn gynhwysol ac sy'n defnyddio dull 'cymuned-gyfan'. Gyda'r ymateb hwn byddwn yn amgáu copïau o'r Polisi Diwylliannol (y credwn ei fod yn unigryw i trac) ac ambell i ddemograffig cerddoriaeth draddodiadol. Gallwch weld copïau o'n cylchgrawn, Ontrac, a fydd yn cynnig tystiolaeth ddarluniadol o apêl y genre, ar-lein yn <http://trac-cymru.org/ontracmag.html>. A wnewch chi hefyd ymweld â'n sianel Youtube os gwelwch yn dda (<http://www.youtube.com/user/musictraditions-wales>) i wylio *montage* o'r Arbrawf Mawr, ein hysgol benwythnos.

11. A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiad arwyddocaol ym mynychiad a chyfranogiad y cyhoedd mewn gweithgareddau celf a diwylliannol (er enghraifft yn seiliedig ar gefndir ethnig, anabled, lleoliad mewn ardal drefol neu wledig)?

Yn nhermau'r celfyddydau cymunedol, mae gweithio y tu allan i dde-ddwyrain Cymru yn cynnig mantais glir. Fel y crybwyllwyd uchod, y ffordd orau i fynd i'r afael â thlodi gwledig yw gosod yn eu lle strwythurau sy'n 'gwastadu'r maes chwarae' (prisiau, trafndiaeth, ayyb) ac yn tynnu ymaith y rhwystrau sy'n amharu ar gyfranogaeth mewn gweithgaredd cymuned-gyfan.

Pan fo cyllido yn gwbl ddbynnol ar y mater dan sylw, prin yw'r opsiynau y tu hwnt i gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r mwyafrif o Ymddiriedolaethau yn diffinio eu polisiau cyllido mewn ffordd gyfyng sy'n cyfateb i feini prawf anfantais penodol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd i ystyriaeth cred y rhoddir tipyn o goel arni mewn cylchoedd datblygu cymunedol; nid yw Cynaladwyedd ac Ychwanegedd bob amser yn cydfyw'n gysurus. Os ydy cyllido cyhoeddus yn ffafrio Ychwanegedd, nid yw'n bosibl Cynnal y gweithgareddau sail sy'n meithrin arloesi.

12. A oes na unrhyw sylwadau pellach yr hoffech chi ei gwneud parthed â hygyrchedd gweithgareddau celf a diwylliannol yng Nghymru?

O oes wir.

Er mwyn i'r Celfyddydau fod yn hygyrch, mae angen arnynt lawer gwell proffil cyhoeddus. Mae grwpiau Celf unigol yn cael eu gorfodi, yn hollol deg, i farchnata eu gweithgareddau eu hunain. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn symud i ffwrdd o gyllido mudiadau ymbarél ac, er bod 'na sail resymegol i hyn, yn aml, y mudiadau hyn sy'n gwneud y gwaith gorau i hyrwyddo eu sector neu genre. Serch hynny, uwchben y lefel hwn, dylem ofyn y cwestiwn; pwy ddylen ni ddal yn atebol am y diffyg gwerth a roddir gan y cyhoedd ar y Celfyddydau?

Pam y mae'r Cyfryngau Cymraeg - ac yn benodol y darlledwyr/cyhoeddwyr hynny sy'n derbyn cyllid cyhoeddus - yn adrodd ar Chwaraeon ymhob cyhoeddiad neu ddarllediad, tra bod slot y Celfyddydau ond yn atgof niwlog yng nghof darllenwyr/defnyddwyr sy'n mynd i oedran? Pa awdurdodau sy' wedi methu sefydlu pwysigrwydd ymdrechi creadigol? Pam fod rhaid i'r Celfyddydau, os ydynt yn cael unrhyw sylw o gwbl, ymladd am gornel ymysg gohebiaeth Ffordd o Fyw ac Enwogion?

Pwy sydd wedi syrthio i gysgu wrth y llyw Cyllido Ewropeaidd? Nid yw cwmnïau unigol - yn enwedig y cyrff cenedlaethol llai - wedi'i harfogi i ddelio â baich gweinyddol rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd er y gall y grwpiau hyn fod y cyfranwyr trawswladol mwyaf addas. I fod yn deg, dyma un maes y mae'r Awdurdodau Lleol wedi dangos llwyddiant ynddo; drwy sefydlu dull 'cist gymunedol' o gael mynediad at gyllid Ewropeaidd, gall mudiadau llai elwa ar y cyllid hwn. (Yn anffodus, o safbwynt trac, rhaid i ymgeiswyr fod yn grwpiau cymunedol lleol, sydd yn aml yn glynu at ddewisiadau sicr ar gyfer eu rhaglenni. Dyma ddadl arall wrth gwrs o blaid bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn dal i barhau i gymryd diddordeb ar lefel llawr gwlad / amatur / gwirfoddol, er mwyn ysgogi arloesi).

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn creu Sefydliad Celf Cenedlaethol, syniad a godwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yng Nghynadleddau'r gorffennol? Neu, o ran hynny, sefydlu'r egwyddor o hawl ddiwylliannol a strategaeth wedi'i chynllunio a'i chyllido ar gyfer cyfranogi yn y celfyddydau?

Mae Adroddiad Stephens yn cyfeirio dro ar ôl tro at y celfyddydau a diwylliant fel cyfrwng i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol ac i ymgysylltu pobl Cymru gydag adfywio cymunedol, lles a chyrhaeddiad addysgol; maent yn grymuso grwpiau ac unigolion i newid eu perthynas â chymdeithas ac yn elfen allweddol o unrhyw fater Cymru-eang, megis datblygu strategaeth dwristiaeth ddiwylliannol. Yr Adolygiad Buddsoddi yw'r rhwystr mwyaf i symud yr agenda hwn yn ei blaen. Mae'n ymddangos ei fod wedi'i gynllunio i ddileu gweithgaredd cymunedol a chelfyddydau cymdeithasol o gyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru drwy leihau neu ddiddymu cyllid cleientod sy'n gweithio yn y meysydd yma, ac felly i dynnu ymaith eu gallu i gyflwyno eu gwaith.

I gloi:

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru fod yn arweinwyr, ond, yn hytrach, maent wedi ymgolli yn rheolwriaeth ac, mewn ambell i achos, darpariaeth uniongyrchol.

Nid yw rheolwriaeth yn ffafriol i Gymru Greadigol - os ydyw'r Celfyddydau yn mynd i fod yn llewyrchus ni fydd 'un maint yn gweddu i bawb'; mae'r broses greu yn amrywio o un *genre* i'r llall, o gynnyrch i gynnyrch ac o ardal i ardal.

Os na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i asiantaethau'n ymrwymo i sefydlu'r Celfyddydau fel elfen graidd mewn cymunedau Cymraeg, ni fydd ganddo unrhyw hygredd yn nhrefodaethau'r Diwydiannau Creadigol neu'r Economi Wybodaeth.

Mae trac o'r farn bod bywyd diwylliannol Cymru yn dechrau o'i wreiddiau dwfn yn ei bridd ei hun, yn ogystal â ffynnu oherwydd dylanwad diwylliannau eraill. Ein "Cynnig Gwerthu Unigryw" ar lwyfan y byd yw Brand Cymru, ac os nad yw'n diwylliant brodorol yn cael ei atgyfnerthu mewn ffordd bositif, dynwared fyddwn yn unig, yn hytrach nag arloesi.

"O'r tu mewn i draddodiad cadarn y blagura newyddwch." Saunders Lewis



“To accept a language that expresses neither our true selves nor our true mythologies is to disarm our civilization” John Ralston Saul

Siân Thomas
Cyfarwydd - Director
trac: Music Traditions Wales
trac: Traddodiadau Cerdd Cymru

I. Context & Market Assessment

i. Existing Profile

- a. trac’s main communication tool is its mailing list, currently comprising 1099 registrants (138 outside of Wales). Inclusion on the list is free upon provision of address; all registrants receive Ontrac three times a year and other trac-generated mailings as undertaken. (The mailing list is not available for direct use by other organizations but trac will send out information on behalf of relevant organizations.) Provision of e-mail address allows the registrant to also receive weekly e-mail bulletins.




b. The trac website is one of the prime resources for sourcing information on traditional music activities and artists in Wales. Since the current website went live in 2005 it has grown from a simple list of musicians to a resource listing musicians, festivals, folk clubs, sessions, dance, storytellers and instrument makers. In need of an overhaul to keep pace with expectations of a web resource, it is supported and complemented by the trac MySpace and FaceBook pages.

ii. Other indicators of market

a. The Sector in Wales

- ACW Arts Omnibus report: “Folk, Traditional and World Music Events was a category added to the survey in 2006, therefore there are only two years’ worth of comparison data available. There does appear to have been an increase in attendance since last year with 12% of adults now saying they go to such events once a year or more, compared with 8% a year ago ... Men, ABC1s and 35-44s are slightly more likely than average to attend these events but there are no major variations by demographic group in attendance.” The report shows that Folk, Traditional and World music achieve respectable attendance figures in comparison to some better funded art forms.



- Taplas, Wales’ only commercial folk magazine lists 99 folk clubs in Wales, and 18 dance groups or sessions (other than Welsh Folk Dance)
- Cymdeithas Ddawns Werin (Welsh Folk Dance Society) has 19 groups as constituent members across Wales. The majority now have their own band which is a development over the last 20-25 years. The Society has 28 publications, 4 DVDs, 5 CDs and 5 educational packs available.
- Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru (Welsh Folk Song Society) has a research and publication role within the sector. It has a fairly stable membership of 180 individuals and 14 institutions. It has 25 publications currently in print, not counting the annual Journal; sales over six years have averaged circa £1030. It receives an income from MCPS which averages out annually to circa £690.
- Sain Records currently has 56 CD’s available within its ‘folk’ category. Fflach Tradd lists 18 titles. There are also small folk-specific labels such as Taith Records and Steam Pie, and an increasing amount of self-published CDs by individual bands and artists.
- Traditional and folk music are now a major feature of Welsh Music Foundation and Wales Arts International overseas promotions. The 2007 WOMEX CD to promote Welsh music abroad featured 30% folk artists: the 2009 CD is over 90% traditional/folk content. This indicates both an increase in professional performers in the genre and their recognition by the Industry in Wales.

b. Some English figures¹

- UK folk festivals generate spending of over £82 million each year.
- There are now over 350 folk festivals in the UK. Between them they attract over 350,000 attendances from 106,000 people, each of whom attends an average of 3.3 folk festivals per year. Each visitor spends, on average, £226 per festival.
- Folk festivals generate 315,000 tourism visits every year. These visitors spend up to 300,000 paid-for bed nights in hotels and B&Bs generating £8.34 million spend in the accommodation sector.
- 17% of festival tourists stay on in the area after the festival, generating further tourism spending. Of the 24% trying a festival for the first time, three quarters will return.

c. Potential Growth

- Traditional music is still labouring against preconceptions which are skewed in favour of mass market musics. In the short term, trac's greatest asset is the people who have attended activities such as The Big Experiment or partner activities, such as Clera workshops. These are beginning to act as *Multipliers* within the genre; they are sharing their positive experiences with friends and workmates, and breaking down conceptual barriers. This is true both for youth and adult participants. trac needs to develop these grass-roots champions by building their skills and confidence. Geographical development of the sector - due to the limited resources available - will be largely defined in the next 3 year period by the volunteer activists available to trac.
- trac will continue to work in co-operation with social development agents, education and tourism.
- trac has worked with Galeri (Caernarfon), Arad Goch (Aberystwyth), the Welsh Museum of History (Cardiff) and Welsh College of Music & Drama in recent years. Further development of these partnerships can provide these partners with 'content' while providing trac with 'facilities'.
- through developing participants in traditional music, trac is also creating a demand for resources. Much project material will be appropriate for use beyond the project and trac should explore and develop traditional and electronic media as a distribution channel for free use, use as part of fee-paid activity, and even on a purely commercial footing. There is scope for creating a private-public partnership with professional publishers; also, for accessing non-arts funding, e.g. heritage funding.
- trac is grateful to the Arts Council of Wales for holding the Traditional Music Forum in 2006 and refers to the Proceedings as one of the guiding documents for any development work

d. Social Considerations



- trac will continue to address both the 'cultural' and 'social' aspects of traditional music
- traditional music is a participatory music deeply rooted in the history of a community. "... moving together and sounding together in a group creates a direct sense of *being* together and of deeply felt similarity, and hence identity, among participants. ... Social synchrony is a crucial underpinning of feelings of social comfort, belonging, and identity." (Thomas Turino²)
- particularly in rural areas, voluntary arts make important contributions to community life and enterprise. trac continues to support local musicians who wish to access traditional music for these purposes.
- Traditional, and other genres of community, music are, at their best, intergenerational although positive interaction between age groups is hindered by legislative barriers. This

¹ Impact of Folk Festivals (2004), Association of Festival Organizers & Arts Council England

² Turino, Thomas. 2008. *Music as Social Live: The Politics of Participation*. Chicago: University of Chicago Press

reflects the Welsh Assembly Government's Strategy for Intergenerational Practice which gives that, "the aim of intergenerational work is to find ways to develop and strengthen relationships across the generations."

- Although trac activities are intergenerational, traditional music has a particular resonance with older practitioners. The Baring Foundation has established a new fund with this in mind, stating, "Benefits to breathing are also a side effect of singing. Playing a musical instrument can also improve breathing or keep fingers supple. Falls prevention in older people is a major focus for the National Health Service and dance and movement has an obvious contribution to make," and "Cultural expectations of participation and artistic forms will change as teenagers from the Swinging Sixties begin to retire in the next ten years".
 - "Perhaps as result of the toughening economic environment there was a clear move towards in-home leisure spending with that sector growing (in 2008) by 4.4% compared with just 4.0% for out-of-home leisure. In the previous two years out-of-home leisure had been the fastest growing sector. Within the in-home leisure segment music, video and games performed better than average with growth of 5.3% compared, for instance, with reading at 3.3% and hobbies and pastimes at just 1.5%". Source: Sheffield Hallam University, via Entertainment Retailers Association
 - "Art and culture are only communicable as long as they are the products of living yet stable forces in which tradition is receptive, and when there is no discontinuity between past and present. In modern societies, cultures have become threatened by the loss of transmissibility and communicability." *Julie Steyn*
 - trac's work in communities is guided by trac's Cultural Policy, a possibly unique document
 - trac operates bilingually and has developed systems for making the Welsh language repertoire accessible to Welsh learners and non-Welsh speakers. The work is in accordance with trac's Welsh language policy
 - trac's Equal Opportunities and Child Protection policies are key documents in project development, monitoring and evaluation
- e. Technological Opportunities: New technologies and functionalities provide trac with opportunities to overcome barriers to publishing and distribution of information. The challenge over the next four years will be to monetize these contacts into income opportunities.
- The Big Experiment 2009 employed closed social networking (Groupsie) for the first time to provide a tune resource and advance communication with registrants. Although restricted by the 'free' facilities available, there is potential to subscribe to a more sophisticated service in the future. Social network sites overcome cost issues of upgrading the corporate website. Allowing a more open access to the library facilities enables volunteers to submit audio, audio-visual, visual and text files thus building an archive faster than would be possible within trac's current resources.
 - trac will also employ the more generic networking sites, and has a presence on both Myspace and, most recently, Facebook. The Facebook 'Page' was established following The Big Experiment 2009 to maintain visibility and access. An initial 58 members has trebled in 10 days and continues to grow, particularly when encouraged by staff blogging. Facebook statistics indicate that it is a useful tool for raising awareness internationally.
 - Facebook statistics



- trac looks to play a role in the ACW “IMPACT ” bid for Traditional Music-Creative Industries development which has a major web-portal element
 - on an operational level, trac will continue to rely on VOIP technologies and other web based enablers to operate on a national, and international level. trac will continue to hold a percentage of Board meetings electronically and employ technology to reduce our carbon footprint and management costs.
- f. Operating within the broader economy
- The current downturn in the economy has had direct effect on attendance at some trac events - notably The Big Experiment. However, lower disposable income might
 - ▲ add value to, and appreciation of, Ontrac as a free publication
 - ▲ encourage more participatory “home-made” music, which is traditional music’s strength
 - trac notes that the profile of trad/folk music is being raised by major rock/pop/film performers engaging with the genre: Bruce Springstein, Sting, Richard James, Steve Martin

- at the November 2007 Cruinniu Traditional Musicians conference panelists Bob Donnelly (Music Attorney, USA) and D. Page Kelley III (Attorney, Ents & Intellectual Prop. Specialist, USA) believed that trad music is a type which will sell in perpetuity: low volume, but for an extended time period as opposed to ‘popular’ music selling a high volume over a brief period with no ‘tail-off’. Traditional musicians, however, must engage with new media (online sales, social networking, etc.) to create a ‘buzz’ around their product. As of 2007, CD sales in the USA were down by 28% suffering from digital downloads. “Celtic” music was, at that time, only 2% of digital sales.
 - Indie Music Futurist, Mika Schiller, reminds musicians that “the things that do have value are you and the community and interactivity you create. Your shows and your fan community are the things that have value today because they are scarce and hard to produce. Albums aren’t. Remember, you don’t need a huge following to create value.” The community created by trac will be a resource for musicians’ income streams.
- g. The Political and Governance Agenda
- trac was instrumental in the creation of The Gregynog Declaration, a communal statement from stakeholders - individuals, groups, societies and agencies - giving voice to their expectations from government and government sponsored bodies. This is considered to be a key document by the sector. (Appendix XXX)
 - Communities First evaluation shows that 17% of projects were Arts based (4% music) with a bias towards work with Children and Young People. The Arts activity within C.F. can be criticized for lack of professional artistic guidance and monitoring of arts-related output. The aim seems to be enabling communities to do *something*, with a vague expectation that it will eventually be followed by something *good*. The CFTF 2007 evaluation of perceived impact indicated:
 - ▲ 95% of projects / groups felt that their project brought social benefits;
 - ▲ 45% felt that their project brought cultural benefits;
 - ▲ 17% felt that their project brought economic benefits;
 - ▲ 16% felt that their project brought environmental benefits.
 - The One Wales Plan commits the Welsh Assembly Government to, “Establish all-Wales collection of people’s history, backed by permanent curatorial staff with responsibility for promotion and development of the collection.” The traditional/folk sector must advocate for access to indigenous music to be an integral part of this commitment.
 - “The Futures of Arts & Culture in Wales” report has a number of findings which supports trac’s approach to community and participatory music:
 - ▲ “There was a significant division of opinion in relation to people’s future focus on material and non-material needs. A larger proportion of the group (39 per cent) believed that creativity and self-expression will become more widely valued and expressed, compared with a total 17 per cent who expressed various levels of disagreement. Many expressed the view that this development of creativity was beneficial for society and would be increasingly important economically.”
 - ▲ “Others hoped for an anti-globalisation reaction against increasing homogeneity and a need for authenticity, ... repeated countercultural movements to rediscover local cultural roots and identities”.
 - ▲ “Social enterprise - particularly in community based arts - could provide a model”
 - The work of trac reflects the stated goals of ACW’s Quality Framework, particularly:
 - ▲ Arts and culture as central to our identity as a nation
 - ▲ Wales as home to artists of quality and imagination
 - ▲ The arts at the heart of its community and economic revival, making them a factor in all local and national planning

- ▲ The arts being more widely available, with the broadest range of people enjoying and taking part in the arts
- ▲ Artists of distinction and ambition enhancing the country's cultural reputation
- trac's work is in line with the WAG Culture Statement Draft Potential Key Themes:
 - ▲ The richness of our culture and its role in our sense of place: how culture develops and strengthens people's sense of living in a community; also their sense of Wales' place in the world; the importance of our culture to the way Wales is promoted abroad. Also to remind the people of Wales of the huge range of exciting cultural activities that is available on their doorsteps.
 - ▲
 - ▲ Participation and enjoyment: to re-emphasise the value of participation and active citizenship, and of how cultural organisations are key to this, as they allow people to tap into their passions and interests. Also the need for key culture agencies to encourage more involvement by local communities, and to lead by example, e.g. by setting up Employee Volunteering schemes.

Polisi Diwylliannol

- Diben trac yw hybu addysg y cyhoedd drwy hyrwyddo'r celfyddydau traddodiadol a'r celfyddydau sydd wedi eu seilio ar y traddodiadol gan gynnwys cerddoriaeth, cân a dawns (ond heb eithrio ffurfiau eraill) drwy weithgareddau sydd wedi eu cynllunio i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan ac i godi safonau.
- Fe anelir at y nod ac amcanion hyn yng ngyd-destun Polisi Diwylliannol trac.
- Mae'r polisi hwn yn
 - i) parchu traddodiad
 - ii) parchu cyfraniad pobl o bob oed
 - iii) parchu egwyddorion cyfle cyfartal
 - iv) parchu etifeddiaeth ddiwylliannol yr iaith Gymraeg
- Prif nod trac yw sicrhau trosglwyddiad diwylliant traddodiadol Cymru ac fe'i sefydlwyd am fod gwir bryder ynghylch dirywiad y trosglwyddo hwn.
- Mae trac yn cydnabod y gallai ei rôl fod yn ddi-ddiwedd am fod ystod y termau 'traddodiad', a 'diwylliant' mor eang. Oherwydd hyn, yng nghyd-destun priod-waith trac ystyrir
 - i) 'diwylliant' i fod yn derm sy'n cyfeirio at yr amrywiol fathau ar gelfyddyd.
 - ii) 'traddodiad' i fod yn derm sy'n cyfeirio at yr hyn sy'n unigryw i unrhyw gymuned ac sydd wedi ei wreiddio yn ddwfn yn y gymuned honno

Mae trac yn gweithio tuag at gadw, parhau a datblygu y ffurfiau hynny ar gelfyddyd sy'n unigryw i gymunedau Cymru ac sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yng Nghymru.

- Blaenoriaethau

Oherwydd ehangder y maes, mae trac yn derbyn bod angen blaenoriaethu rhai agweddau penodol - tra ei fod fel cymdeithas yn awyddus i gefnogi mudiadau eraill a rhwydweithio'n agos â hwy i weld gwireddu gweithgareddau eraill o'r un anian.

- Mae trac yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau
 - i) sy'n seiliedig ar gerddoriaeth, boed hwnnw'n offerynol yn lleisiol neu'n ddawns
 - ii) sy'n defnyddio mwy nag un ffurf ar gelfyddyd perfformiadol.
 - iii) sy'n trosglwyddo'r stori - ar ffurf chwedl, baled ayb
- Yn unol a nod addysgol trac, a'r awydd i gadw a pharhau'r traddodiad, yn y lle cyntaf mae trac yn gosod pwys ar brosiectau sy'n trosglwyddo'r traddodiad ac yn creu cyfleoedd i bobl fabwysiadu'r traddodiad - hy lle mae pwyslais ar 'y gynulleidfa' neu'r 'rhai sy'n derbyn' yn hytrach nag ar y 'perfformwyr' neu'r rhai sy'n 'darparu a chreu'
- Yn yr ail le, mae trac yn cefnogi datblygiad creadigol y traddodiad ac yn hyn o beth yn cenhadu dros ddeiliaid y traddodiad a cheisio sicrhau llwyfan i'w gwaith yng Nghymru a thu hwnt.

Cultural Policy

- trac's Objects are to 'advance the education of the public by promoting the use of traditional and tradition-based arts including - but not exclusively - music, song and dance, by activities designed to increase participation and raise standards'.
- trac will pursue these objects within the context of its Cultural Policy.
- This policy
 - v) respects the traditional
 - vi) respects the contribution of people from all age groups
 - vii) respects the principles of equal opportunity
 - viii) respects the cultural heritage of the Welsh language
- trac's main aim is to ensure the continuation of the traditional culture of Wales - it was established in response to a genuine concern that this continuation is in danger.
- trac recognises that its role is potentially endless since the terms 'tradition' and 'culture' are so wide. Given this, in the context of trac's core function the terms are interpreted as follows:
 - i) 'culture' refers to the various art-forms
 - iii) 'tradition' refers to that which is unique to any given community and deeply rooted in that community.

trac works towards the preservation, continuation and development of those art forms that are unique to the communities of Wales and that have deep roots in Wales.

- Priorities

Given the very broad nature of the field, trac accepts that it is necessary to prioritise specific aspects of the above - and will support the work of other sister agencies and network closely with them to realise activities that promote similar objects.

- trac prioritises projects
 - i) that are based on music - whether it be instrumental, vocal or played for dance
 - ii) those which involve more than one art form.
 - iii) those which hand over the story - as tales, myths or ballads etc
- In accordance with trac's educational object, and its concern to see the continuation of the tradition, trac will emphasise in the first place projects that hand over the tradition and create opportunities for people to adopt the tradition i.e. where the main focus is on the audience or the receivers rather than on the performers or providers and creators.
- In the second place, trac supports the creative development of the tradition, and in this, promotes the holders of the tradition and attempts to ensure a platform for their work in and beyond Wales.